



## **DATGANIAD SEFYLLFA AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL BANNAU BRYCHEINIOG AR Y CANLYNOL:**

### **Tystiolaeth yn Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog**

#### **DYDDIAD CYMERADWYO:**

**Awdur:** Paul Funnell

#### **Adolygwyr a gyfrannodd i'r datganiad:**

Helen Lucocq  
Christopher O'Brien

#### **Ein Sefyllfa:**

Diben y Datganiad Sefyllfa hwn yw egluro dull Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog o gaffael, rheoli a defnyddio tystiolaeth er mwyn helpu i gyflawni amcanion a chanlyniadau Cynllun Rheoli a Chynllun Datblygu Lleol yr Awdurdod.

Mae'r Awdurdod yn creu polisiau a strategaethau, a rhaglenni gwaith yn eu sgil, ar sail y dystiolaeth orau sydd ar gael ac y gallwn gael gaffael arni. Rydym yn cyrchu ac yn dadansoddi tystiolaeth er mwyn ein galluogi i ddatblygu ein polisiau a'n harferion gweithio ac er mwyn hybu ein heiriolaeth. Mae defnyddio tystiolaeth gadarn yn hanfodol i enw da'r Awdurdod.

Rhaid i sylfaen dystiolaeth yr Awdurdod gwmpasu'r holl weithgarwch sy'n perthyn i'n holl raglenni gwaith. Bydd y sylfaen dystiolaeth yn cael ei defnyddio i lywio'r holl asesiadau a'r holl arfarniadau statudol sy'n ofynnol yng nghyswllt ein cynlluniau a'n cynigion, er enghraifft Asesiad Amgylcheddol Strategol neu Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd.

Rydym yn cael ein tystiolaeth o ystod eang o ffynonellau, sy'n cynnwys cyfnodolion a adolygwyd gan gymheiriaid, erthyglau ac adroddiadau a gyhoeddwyd, astudiaethau a gomisiynwyd, cyngor arbenigol, ymchwil gan ein swyddogion ein hunain neu ddata o'n prosiectau gwyddoniaeth dinasyddion, sy'n cynnwys dadansoddi canfyddiadau ein cynulliad dinasyddion.

Os yw Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog wedi cynhyrchu tystiolaeth, dylai'r dystiolaeth:

- Fod yn gadarn o safbwynt gwyddonol (gyda gwaith digonol wedi'i gyflawni i sicrhau ei hansawdd a sicrhau ei bod wedi'i hadolygu gan gymheiriaid, os oes modd)
- Bod wedi'i chofnodi yn llawn (gyda metadata a pherchennog data a enwir)
- Bod yn hygyrch a bod ar gael yn hawdd i'w harchwilio
- Bod yn amserol/yn gyfredol



- Bod ar y raddfa gywir ar gyfer y defnydd y bwriedir ei wneud ohoni (graddfa leol, ranbarthol, genedlaethol, ryngwladol)
- Cydymffurfio â gofynion cyfreithiol o ran diogelu data
- Bod ar gael i bawb, pryd bynnag y bo modd.

Dylai ein sylfaen dystiolaeth fod yn addas i'w diben. Bydd safon y dystiolaeth sy'n ofynnol yn amrywio'n ôl y defnydd y bwriedir ei wneud ohoni, a byddwn yn defnyddio'r dystiolaeth fwyaf cost-effeithiol sy'n ofynnol er mwyn iddi gyflawni ei diben. Byddwn yn gwerthuso tystiolaeth er mwyn sicrhau ei bod o ansawdd priodol ar gyfer y defnydd y bwriedir ei wneud ohoni (gweler Atodiad I).

Wrth ddweud hynny rydym yn cydnabod bod yn rhaid i ni, wrth ddatblygu polisiau a chymau gweithredu ar sail canfyddiadau tystiolaeth, ystyried profiadau gwirioneddol y bobl sy'n byw ac yn gweithio yn y Parc Cenedlaethol a'r sawl sy'n ymweld ag ef. Byddwn yn sicrhau bod y gwaith o ddatblygu polisiau'n gydweithredol yn cynnwys systemau cadarn ar gyfer clywed barn ein cymunedau wrth wneud penderfyniadau.

### **Beth y byddwn a beth yr ydym yn ei wneud?**

Byddwn **yn cynnal ein sgiliau gwyddonol a thechnegol** – gan sicrhau ein bod yn ymwybodol o'r datblygiadau diweddaraf yn ein meysydd arbenigedd a'n bod yn ehangu ein gwybodaeth. Er mwyn cyflawni hynny, byddwn:

- Yn hybu datblygiad o ran gyrfa ac yn cynnal gwybodaeth mewn meysydd arbenigol.
- Yn cynnwys gwaith cynnal a chadw data a sgiliau dadansoddi mewn amcanion ar gyfer pob aelod perthnasol o staff.
- Yn cynorthwyo staff i fynychu cynadleddau allweddol ac yn annog sgysiau/posteri am gynadleddau.
- Yn neilltuo amser ar gyfer lleoliadau perthnasol mewn prifysgol, cyfleoedd i ddarlithio/goruchwyllo ymchwil, a chyfleoedd i ennill cymwysterau ôl-raddedig, ar gyfer staff yr Awdurdod.

Byddwn hefyd yn sicrhau bod gan staff fynediad digonol i lenyddiaeth wyddonol a chyfnodolion perthnasol.

Gan adeiladu ar y gwaith sydd wedi'i gyflawni hyd yma, byddwn **yn cynnal cysylltiadau presennol â phrifysgolion allweddol a sefydliadau ymchwil** sy'n gweithio yn ein meysydd diddordeb, er mwyn gwella mynediad i ymchwil arloesol, rhannu arbenigedd yr Awdurdod, cynnig cyfleoedd i fyfyrwyr wneud gwaith ymchwil, a datblygu portffolio o brosiectau arddangos ymarferol.

Byddwn **yn buddsoddi mewn cyfleusterau storio, rheoli a dosbarthu data** fel bod ein staff a'n gwirfoddolwyr yn gallu cyfrannu'n hwylus i'n cronfeydd data a chael mynediad iddynt. Byddwn yn diweddarau ein systemau'n gyson ac yn sicrhau ein bod yn **ariannu camau a gymerir fel mater o drefn i gynnal a chadw** ein cronfeydd data presennol. Byddwn yn cynnal ein Cytundeb Lefel



Gwasanaeth â'r Gwasanaeth Gwybodaeth am Fioamrywiaeth ar gyfer Powys ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog) ac yn adeiladu ar y cytundeb hwnnw. Byddwn hefyd **yn buddsoddi yn ein sgiliau dadansoddi a chyflwyno data** (e.e. y defnydd o Systemau Gwybodaeth Ddaeryddol a gwybodaeth fusnes).

Bydd ein cynnyrch o ran tystiolaeth yn cael ei gyflwyno ar y **raddfa berthnasol** – ar raddfa leol, ar raddfa'r Parc neu ar raddfa ranbarthol, genedlaethol neu ryngwladol pan fo angen. Byddwn yn sicrhau ein bod **yn defnyddio'r derminoleg gywir** wrth gyflwyno tystiolaeth ar raddfa ranbarthol neu genedlaethol, ar raddfa'r DU neu ar raddfa ryngwladol. Byddwn **yn cynhyrchu fersiynau dwyieithog o gynnyrch allweddol o ran tystiolaeth**.

Byddwn yn sicrhau bod ein **swyddogion arbenigol a'n swyddogion cyfathrebu yn cydweithio'n agos** o'r cychwyn cyntaf fel ein bod yn cyflwyno ein tystiolaeth yn y ffordd fwyaf diddorol, gan ddeall ein cynulleidfaoedd a'u hanghenion. Pan fo'n briodol, byddwn **yn safoni'r** broses a'r fformat ar gyfer cyflwyno cynnyrch o ran tystiolaeth. Byddwn hefyd **yn hyfforddi ein staff ynghylch dulliau effeithiol o rannu tystiolaeth**.

**Byddwn yn ymdrechu i sicrhau parhad a chysondeb yn ein tystiolaeth a'n methodolegau** er mwyn gallu dadansoddi a deall tueddiadau'n ystyrllon.

**Y dystiolaeth fydd y dystiolaeth orau sydd ar gael** â'r adnoddau a ddyrannwyd. Bydd wedi'i graddoli i'r enghreifftiau o ddefnydd a nodir yn Atodiad I, a bydd yn cael ei chyflwyno gyda chafeatau ac esboniadau ynghylch unrhyw anghyflawnder, ansicrwydd, amwysedd neu anghysondeb. Os bydd cafeatau ac esboniadau o'r fath yn berthnasol i sylfeini tystiolaeth allweddol, er enghraifft Adroddiad Cyflwr y Parc, byddwn yn egluro ein dyheadau ar gyfer gwelliannau yn y dyfodol a'n cynlluniau ar gyfer cyflawni'r gwelliannau hynny.

Byddwn yn cynnal **Cynllun Tystiolaeth** er mwyn rhestru a blaenoriaethu ein hanghenion o ran tystiolaeth a phennu'r adnoddau sy'n ofynnol. Bydd hynny'n cael ei ategu gan gatalogau tystiolaeth ac ymchwil.

**Atodiad I – Gwerthuso cryfder cyffredinol corff o dystiolaeth<sup>1</sup> (a'r defnydd a wneir ohono yn Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog)**

<b>Categoriâu dystiolaeth</b>	<b>Ansawdd, maint, cysondeb a chyd-destun</b>	<b>Nodweddion arferol y corff o dystiolaeth</b>	<b>Beth y mae'n ei olygu ar gyfer ymyriad arfaethedig</b>	<b>Enghreifftiau pan allai'r lefel hon o dystiolaeth gael ei defnyddio/fod yn ofynnol yn yr Awdurdod</b>
Cryf iawn	Corff o dystiolaeth sydd o ansawdd da, sy'n fawr o ran maint, sy'n gyson ac sy'n berthnasol o safbwynt cyd-destunol.	Caiff cwestiynau ymchwil y bwriedir iddynt wahanu achos ac effaith (h.y. beth sy'n digwydd) eu hateb gan ddefnyddio <b>dyluniadau ymchwil arbrofol a lled-arbrofol o ansawdd da</b> , sy'n ddigon niferus i fod wedi arwain at lunio adolygiad systematig neu fetaddadansoddiad. Caiff cwestiynau ymchwil y bwriedir iddynt archwilio ystyr (h.y. pam a sut y mae rhywbeth yn digwydd) eu hystyried drwy <b>amrywiaeth o ddulliau ymchwil arsylwadol ansoddol strwythuredig</b> sy'n mynd i'r afael yn uniongyrchol â materion cyd-destunol.	Rydym yn hyderus iawn bod yr ymyriad/nad yw'r ymyriad yn arwain at yr effaith a ddisgwylir. Mae'r corff o dystiolaeth yn amrywiol iawn ac yn gredadwy tu hwnt, ac mae'r canfyddiadau yn argyhoeddiadol ac yn sefydlog.	Heriau cyfreithiol (e.e. Adolygiadau Barnwrol).
Cryf	Corff o dystiolaeth sydd o ansawdd da, sy'n fawr neu'n ganolig o ran maint, sy'n gyson i raddau helaeth neu gymedrol ac sy'n berthnasol o safbwynt cyd-destunol.	Caiff cwestiynau ymchwil y bwriedir iddynt wahanu achos ac effaith (h.y. beth sy'n digwydd) eu hateb gan ddefnyddio <b>dyluniadau ymchwil lled-arbrofol o ansawdd da a/neu astudiaethau arsylwadol meintiol</b> . Maent yn ddigon niferus i fod wedi arwain at lunio adolygiad systematig neu fetaddadansoddiad. Caiff cwestiynau ymchwil y bwriedir iddynt archwilio ystyr (h.y. pam a sut y mae rhywbeth yn digwydd) eu hystyried drwy <b>amrywiaeth o ddulliau ymchwil arsylwadol ansoddol</b>	Rydym yn hyderus bod yr ymyriad/nad yw'r ymyriad yn arwain at yr effaith a ddisgwylir. Mae'r corff o dystiolaeth yn amrywiol ac yn gredadwy, ac mae'r canfyddiadau yn argyhoeddiadol ac yn sefydlog.	Datganiadau Sefyllfa'r Awdurdod ar Bolisi Eiriolaeth o ran polisi Ymatebion i ymgynghoriadau llywodraethau a thystiolaeth i bwyllgorau seneddol.

		<b>strwythuredig</b> sy'n mynd i'r afael yn uniongyrchol â materion cyd-destunol.		
Canolig	Astudiaethau o ansawdd canolig, sy'n gorff o dystiolaeth canolig o ran maint, sy'n gyson i raddau cymedrol. Mae'n bosibl bod yr astudiaethau'n berthnasol o safbwynt cyd-destunol, neu fel arall.	Caiff cwestiynau ymchwil y bwriedir iddynt wahanu achos ac effaith (h.y. beth sy'n digwydd) eu hateb gan ddefnyddio <b>dyluniadau arsylwadol meintiol o ansawdd canolig i dda</b> . Caiff cwestiynau ymchwil y bwriedir iddynt archwilio ystyr (h.y. pam a sut y mae rhywbeth yn digwydd) eu hystyried drwy <b>ystod gyfyngedig o ddulliau ymchwil arsylwadol ansoddol</b> sy'n mynd i'r afael â materion cyd-destunol.	Rydym yn credu bod yr ymyriad/nad yw'r ymyriad yn arwain at yr effaith a ddisgwylir. Mae rhai diffygion sylweddol i'w gweld yn y corff o dystiolaeth. Ceir rhesymau i gredu y gallai gwahaniaethau cyd-destunol effeithio'n sylweddol ar ganlyniadau ymyriadau, mewn modd na ellir ei ragweld.	Gwaith datblygu polisi.
Cyfyngedig	Astudiaethau o ansawdd canolig i wael, sy'n gorff o dystiolaeth canolig o ran maint, sy'n gyson i raddau gwael. Mae'n bosibl bod yr astudiaethau'n berthnasol o safbwynt cyd-destunol, neu fel arall.	Caiff cwestiynau ymchwil y bwriedir iddynt wahanu achos ac effaith (h.y. beth sy'n digwydd) eu hateb gan ddefnyddio <b>astudiaethau arsylwadol meintiol o ansawdd canolig i wael</b> . Caiff cwestiynau ymchwil y bwriedir iddynt archwilio ystyr (h.y. pam a sut y mae rhywbeth yn digwydd) eu hystyried drwy <b>ystod gul o ddulliau ymchwil arsylwadol ansoddol</b> sy'n mynd i'r afael â materion cyd-destunol.	Rydym yn credu bod yr ymyriad/nad yw'r ymyriad efallai'n arwain at yr effaith a ddisgwylir. Mae diffygion sylweddol iawn i'w gweld yn y corff o dystiolaeth. Ceir rhesymau niferus i gredu y gallai gwahaniaethau cyd-destunol effeithio'n sylweddol ar ganlyniadau ymyriadau.	Ymgyrchoedd (lle gallai'r dystiolaeth fod yn wan ond lle mae'r effaith yn ddifrifol a lle mae angen ymateb yn gyflym).



Dim dystiolaeth Dim astudiaethau/Ychydig o astudiaethau'n bodoli	Ni chaiff achos nac effaith nac ystyr eu harchwilio o ddifrif.	Mae unrhyw astudiaethau sydd ar gael yn rhai o ansawdd gwael ac maent yn amherthnasol o safbwynt cyd-destunol.	Nid oes unrhyw dystiolaeth gredadwy bod yr ymyriad/nad yw'r ymyriad yn arwain at yr effaith a nodwyd.	
--	--	--	--	--

- I. Yn seiliedig ar y ddogfen ganlynol gan yr Adran dros Ddatblygu Rhyngwladol yn Llywodraeth y DU: How To Note, 'Assessing the Strength of Evidence', Mawrth 2014 [https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/291982/HTN-strength-evidence-march2014.pdf](https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/291982/HTN-strength-evidence-march2014.pdf)